Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais i gadw rhif cofrestru cerbyd a'i roi ar gerbyd arall

Gallwch wneud hwn ar-lein yn:
www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd
www.gov.uk/rhoi-rhif-cofrestru-preifat-ar-gerbyd

**V317W**

**Rhaid i chi ddarllen y nodiadau cyfarwyddyd sydd ynghlwm cyn llenwi'r ffurflen hon. Defnyddiwch inc du a PHRIF LYTHRENNAU os gwelwch yn dda. Rhaid i chi ddewis opsiwn A neu opsiwn B. Rhowch 'X' ym mlwch yr opsiwn rydych yn ei ddewis.**

## Opsiwn A (gweler isod) ☐

Rwyf am gymryd y rhif cofrestru cerbyd oddi ar gerbyd a'i roi'n syth ar gerbyd gwahanol. Llenwch adrannau 1 i 5 isod. Gallwch hefyd wneud hwn ar-lein yn **www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd** (y ffi yw £80). Gallwch gwblhau'r broses drwy roi'r rhif cofrestru ar gerbyd yn syth ar ôl yn **www.gov.uk/rhoi-rhif-cofrestru-preifat-ar-gerbyd**

## Opsiwn B (gweler dros y dudalen) ☐

Rwyf am gymryd y rhif oddi ar gerbyd a'i gadw ar ddogfen gadw am hyd at 10 mlynedd. Llenwch adrannau 1 i 4 dros y dudalen. Gallwch hefyd wneud hwn ar-lein yn **www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd** (y ffi yw £80).

# Opsiwn A

## 1. Manylion y cerbyd y mae'r rhif cofrestru yn cael ei drosglwyddo oddi arno

**Rhif cofrestru cerbyd personol:**

**Gwneuthuriad:** **Model:**

**Rhif adnabod (VIN)/Rhif siasi:** (gellir darganfod hyn ar y V5CW neu'r cerbyd)

Darparwch rif ffôn y person i gysylltu â rhag ofn bod gennym unrhyw gwestiynau:

## 2. Rhestr wirio am y cerbyd hwn

(Bydd angen cynnwys y canlynol)

- Tystysgrif cofrestru cerbyd (V5CW). **Noder:** Os oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau, fel newid ceidwad neu gyfeiriad, llenwch yr adran berthnasol o'r V5CW. Gweler 'Gwybodaeth bellach' ☐
- Mae'n rhaid eich bod wedi trethu'r cerbyd hwn neu wedi gwneud 'Hysbysiad Oddi ar y ffordd Statudol' (HOS), neu bydd y cais yn cael ei wrthod. Os mai chi yw ceidwad newydd y cerbyd, mae'n rhaid i **chi** ei drethu neu wneud HOS yn eich enw. Ewch i **www.gov.uk/treth-car** neu llenwch 'Cais am dreth cerbyd' (V10W), 'Cais i drethu Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV)' (V85W) neu gais HOS (V890W) ☐
- Tystysgrif yswiriant, os yw'r cerbyd yn cael ei drethu fel rhan o'r cais hwn (Gogledd Iwerddon yn unig) ☐
- Ffi o £80 – siec, drafft banc neu archeb bost ☐

## 3. Manylion y person sy'n gwneud y cais

Caiff y manylion hyn eu defnyddio dim ond os oes problem gyda'r cais neu os oes angen i'r gwaith papur gael eu gwrthod. Os yw deliwr neu asiant yn gweithredu ar eich rhan ac rydych yn dymuno i unrhyw ohebiaeth gael ei dychwelyd iddyn nhw, rhowch eu manylion isod.

Enw a chyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

## 4. Manylion y cerbyd rydych yn ei roi arno

**Rhif cofrestru cerbyd presennol:**

**Gwneuthuriad:** **Model:**

**Rhif adnabod (VIN)/Rhif siasi:** (gellir darganfod hyn ar y V5CW neu'r cerbyd)

## 5. Rhestr wirio am y cerbyd hwn

(Bydd angen cynnwys y canlynol)

- Tystysgrif cofrestru cerbyd (V5CW) **Noder:** Os oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau, fel newid ceidwad neu gyfeiriad, llenwch yr adran berthnasol o'r V5CW. Gweler 'Gwybodaeth bellach' ☐
- 'Cais am dreth cerbyd cyntaf a chofrestru cerbyd modur newydd' (V55W) (os yw'n gerbyd sydd heb ei gofrestru) ☐
- Mae'n rhaid i'r cerbyd hwn gael ei drethu neu gael HOS, neu bydd y cais yn cael ei wrthod. Os mai chi yw ceidwad newydd y cerbyd, mae'n rhaid i **chi** ei drethu neu wneud HOS yn eich enw. Ewch i **www.gov.uk/treth-car** neu llenwch V10W neu V85W ☐
- 'Cais am dystysgrif cofrestru cerbyd' (V62W) ynghyd â'r 'Slip ceidwad newydd' (slip gwyrdd) os mai chi yw'r ceidwad newydd ac nid oes gennych y V5CW ☐

## Official use only

ITT 127 Transfer ☐ Fee ☐

**Donor or retained vehicle details**

VRN CD

**Associated docs:** V10 ☐ V85 ☐

| Replacement vehicle registration number or **V53** | **C/D** |
| --- | --- |
| | |

Is this replacement vehicle registration number transferable? Yes ☐ No ☐

**Receiving vehicle details**

VRN CD

**Vehicle make and model**

**Associated docs:** V10 ☐ V85 ☐ V55 ☐

Date received at DVLA

Date processed at DVLA

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais i gadw rhif cofrestru cerbyd a'i roi ar gerbyd arall

Gallwch wneud hwn ar-lein yn:
**www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd**

**V317W**

## Opsiwn B

### 1. Manylion y cerbyd y mae'r rhif cofrestru yn cael ei drosglwyddo oddi arno

**Rhif cofrestru cerbyd personol:**

**Gwneuthuriad:** **Model:**

**Rhif adnabod (VIN)/Rhif siasi:** (gellir darganfod hyn ar y V5CW neu'r cerbyd)

Darparwch rif ffôn y person i gysylltu â rhag ofn bod gennym unrhyw gwestiynau:

### 2. Rhestr wirio am y cerbyd hwn

(Bydd angen cynnwys y canlynol)

- Tystysgrif cofrestru cerbyd (V5CW). ☐
  **Noder:** Os oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau, fel newid ceidwad neu gyfeiriad, llenwch yr adran berthnasol o'r V5CW. Gweler 'Gwybodaeth bellach'
- Mae'n rhaid i'r cerbyd hwn gael ei drethu neu gael 'Hysbysiad Oddi ar y ffordd Statudol' (HOS) neu bydd y cais yn cael ei wrthod. Os mai chi yw ceidwad newydd y cerbyd, mae'n rhaid i **chi** ei drethu neu wneud HOS yn eich enw. Ewch i **www.gov.uk/treth-car** neu llenwch 'Cais am dreth cerbyd' (V10W), 'Cais i drethu Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV)' (V85W), neu gais HOS (V890W) ☐
- Tystysgrif yswiriant, os yw'r cerbyd yn cael ei drethu fel rhan o'r cais hwn (Gogledd Iwerddon yn unig) ☐
- Ffi o £80 – siec, drafft banc neu archeb bost ☐

### 3. Manylion y person sy'n gwneud cais

Caiff y manylion hyn eu defnyddio dim ond os oes problem gyda'r cais neu os oes angen i'r gwaith papur gael eu gwrthod. Os yw deliwr neu asiant yn gweithredu ar eich rhan ac rydych yn dymuno i unrhyw ohebiaeth gael ei dychwelyd iddyn nhw, rhowch eu manylion isod.

Enw a chyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

### 4. Manylion y wybodaeth rydych yn dymuno ei chael ar y ddogfen gadw (V778W)

- Nodwch y bydd hawl y rhif cofrestru hwn yn trosglwyddo i'r person neu'r cwmni hwn
- Os nad yw'r adran hon yn cael ei llenwi, bydd y person neu'r cwmni sydd wedi'u cofrestru yn geidwad yn cael eu henwi ar y V778W. Os yw'r V5CW wedi'i llenwi gyda manylion y ceidwad newydd, bydd y V778W yn cael ei hanfon at y person neu gwmni yma ynghyd â'r hawl i'r rhif cofrestru
- Gall y V778W gael ei defnyddio i roi'r rhif cofrestru personol ar gerbyd arall

#### 4.1 Manylion y grantî

Enw a chyfeiriad y person neu gwmni i dderbyn y V778W sy'n dangos rhif cofrestru personol y cerbyd.

Enw llawn neu enw'r cwmni:

Cyfeiriad:

Cod post:

#### 4.2 Manylion yr enwebai

Os ydych am ychwanegu enwebai, rhowch eu manylion isod. Ni fydd ganddynt unrhyw hawliau i'r rhif cofrestru cerbyd hyd nes i chi ei roi ar gerbyd sydd wedi ei gofrestru yn eu henw nhw. Byddwch yn colli'r hawl i'r rhif cofrestru hwn ar yr adeg honno.

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (er enghraifft, Dr) ☐

Enw llawn:

Enw'r cwmni:

## Official use only

ITT 126 Retention ☐ Fee ☐

**Donor or retained vehicle**

VRN CD

**Associated docs:** V10 ☐ V85 ☐

| Replacement vehicle registration number or **V53** | **C/D** |
|---|---|
| | |

Is this replacement vehicle registration number transferable? Yes ☐ No ☐

Third party grantee Yes ☐

Date received at DVLA

Date processed at DVLA

## Cyn i chi ddechrau

**I gymryd rhif cofrestru cerbyd oddi ar gerbyd neu ei roi ar gerbyd, mae'n rhaid i'r canlynol fod yn gymwys:**

- mae'n rhaid bod y cerbyd yn bodoli ac wedi ei gofrestru gyda DVLA
- mae'n rhaid eich bod, neu'n dod yn geidwad cofrestredig ar y cerbyd rydych yn cymryd y rhif oddi arno
- mae'n rhaid eich bod wedi trethu neu wedi gwneud 'Hysbysiad Oddi ar y Ffordd Statudol' (HOS)
- mae'n rhaid bod y cerbyd yn gallu symud gyda'i bŵer ei hunain
- mae'n rhaid bod y cerbyd ar gael i'w archwilio
- mae'n rhaid bod y cerbyd yn fath sy'n gallu cael ei archwilio, yn destun i MOT neu GVT (prawf addasrwydd cerbyd ar y ffordd)
- ni allwch arddangos rhif cofrestru cerbyd a fydd yn gwneud i'ch cerbyd ymddangos yn iau nag ydyw

**Noder:**

Os ydych yn cymryd y rhif cofrestru cerbyd oddi ar gerbyd i'w gadw ar ddogfen gadw, gallwch chi (fel y ceidwad cofrestredig) ddewis i fod yn grantî neu gallwch roi'ch hawl i fyny i'r rhif cofrestru cerbyd a rhoi manylion rhywun arall fel y grantî. Unwaith y mae'r cais wedi'i gwblhau, y grantî yn unig a fydd â'r hawl i'r rhif cofrestru cerbyd.

Bydd y cofnod cerbyd yn cael ei wirio. Mae'n rhaid bod y cerbyd naill ai wedi'i drethu (neu fod HOS mewn lle) yn barhaus am y 5 mlynedd ddiwethaf. Bydd angen trethu'r cerbyd os oes HOS wedi bod mewn lle am fwy na 5 mlynedd. Efallai y bydd angen ei archwilio hefyd.

## Y dogfennau sydd arnoch eu hangen

Bydd angen i chi gynnwys y canlynol:

- 'Cais i gadw rhif cofrestru cerbyd neu ei roi ar gerbyd arall' (V317W) wedi ei gwblhau ac wedi ei lenwi gyda manylion y cerbyd
- tystysgrif cofrestru cerbyd (V5CW) ar gyfer pob cerbyd (bydd angen amgáu'r dystysgrif lawn) – os ydych wedi newid cyfeiriad neu newid ceidwad, mae'n rhaid i chi lenwi'r adran berthnasol o'r V5CW
- tystysgrif yswiriant, os yw'r cerbyd yn cael ei drethu fel rhan o'r cais hwn (Gogledd Iwerddon yn unig)
- ffi o £80

Os yw eich V5CW gyfredol ar goll, wedi'i dwyn, ei difetha neu ei dinistrio gallwch wneud cais am ddogfen ddyblyg yn **www.gov.uk/llyfr-log-cerbyd**

## I ble y dylech anfon eich cais

Mae'n rhaid i chi anfon eich cais a'r dogfennau priodol i:

Rhifau Cofrestru Personol y DVLA
Abertawe
SA99 1DS

## Gallwch dalu drwy:

Siec, drafft banc neu archeb bost yn daladwy i 'DVLA Abertawe'. Ni allwn dderbyn sieciau sydd wedi'u difrodi neu wedi'u newid. Os byddwch yn anfon siec sydd wedi'i difrodi neu wedi'i newid bydd eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd atoch.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Efallai y bydd DVLA am archwilio eich cerbyd. Os felly, byddant yn cysylltu â chi.

Unwaith y mae eich cais wedi'i gymeradwyo, bydd y canlynol yn gymwys:

- bydd y cerbyd yn adran 1 yn cael rhif cofrestru cerbyd newydd, oni bai eich bod am aseinio rhif cofrestru cerbyd personol arall ar yr un pryd
- bydd rhif cofrestru cerbyd presennol y cerbyd yn adran 4 (Opsiwn A) yn cael ei dynnu'n ôl (hyd yn oed ei fod yn rhif cofrestru personol), oni bai eich bod yn gwneud cais hefyd i'w drosglwyddo neu ei gadw pan rydych yn gwneud y cais hwn
- byddwn yn anfon eich V5CW newydd a dogfen gadw (os ydych yn cadw'r rhif cofrestru cerbyd) o fewn 2 wythnos o dderbyn eich cais – fodd bynnag, gallai hyn gymryd i fyny at 4 wythnos os wnaethoch gynnwys 'Cais am dystysgrif cofrestru cerbyd' (V62W) neu os oes angen i ni archwilio'r cerbyd
- os ydych wedi rhoi manylion rhywun arall fel y grantî, bydd y ddogfen gadw yn cael ei hanfon atynt hwy
- rydych chi'n gyfrifol am hysbysu eich darparwr yswiriant o'ch rhif cofrestru newydd – os nad ydych, mae'n bosibl y bydd yr yswiriant yn annilys (efallai y byddwch yn derbyn dirwy hefyd)
- peidiwch ag anghofio diweddaru eich rhif cofrestru newydd ar unrhyw gyfrifon codi tâl ffyrdd a weithredir gan Drafnidiaeth Llundain, Highways England a Pharthau Aer Glân – gall methu â diweddaru cyfrif arwain at hysbysiad tâl cosb
- os oes gan eich cerbyd ardystiad cynllun Achredu Ôl-osod Cerbydau Glân, bydd angen i chi ddiweddaru'r ardystiad gyda'r rhif cofrestru newydd

**Cofrestru Personol**
Gwasanaethau ar-lein:

1 **Cymryd rhif cofrestru oddi ar y cerbyd:** www.gov.uk/keep-registration-number

2 **Gosod rhif cofrestru ar gerbyd:** www.gov.uk/put-registration-number-vehicle

## Gwybodaeth bellach

Ni allwch gymryd rhif cofrestru cerbyd oddi ar gerbyd neu ei roi ar gerbyd sy'n dechrau â rhagddodiad 'Q' neu 'QNI'.

Mae'n drosedd i gam-gynrychioli rhif cofrestru cerbyd ar blât rhif (er enghraifft, drwy wneud i '5' edrych fel 'S'). Gweler taflen 'Rhifau cofrestru cerbyd a phlatiau rhif' (INF104W) sydd ar gael yn **www.gov.uk/displaying-number-plates/rules-number-plates**

**Rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau**

Os oes gennych y V5CW gyda'r adran aml-liw ar waelod y tudalen flaen, llenwch naill ai adran 2 i newid y ceidwad neu adran 3 i newid eich cyfeiriad. Os oes gennych yr hen fersiwn o'r V5CW, llenwch adran 6.

Os ydych wedi prynu cerbyd, gall y person y gwnaethoch brynu'r cerbyd wrtho fynd ar-lein yn **www.gov.uk/gwerthu-prynu-cerbyd** i roi eich manylion i DVLA. Dylech dderbyn y dystysgrif cofrestru cerbyd (V5CW) o fewn 5 niwrnod. Unwaith eich bod wedi'i derbyn, gallwch roi'r rhif cofrestru ar y cerbyd yn **www.gov.uk/rhoi-rhif-cofrestru-preifat-ar-gerbyd.** Cyn gwneud hyn, mae'n rhaid eich bod wedi gwneud cais yn barod i gadw'r rhif cofrestru cerbyd yn **www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd**

Gallwch gael 'Cais am dystysgrif cofrestru cerbyd' (V62W), 'Cais am dreth cerbyd' (V10W) a 'Cais i drethu Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV)' (V85W) yn **www.gov.uk/dvlaforms** neu unrhyw gangen o Swyddfa'r Post® sy'n delio â threth cerbyd. I gael 'Cais am dreth cerbyd cyntaf a chofrestru cerbyd modur newydd' (V55W) drwy'r post, ffoniwch 0300 790 6802 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg.

Dylech hefyd ddarllen ein taflen 'Rhifau cofrestru a chi' (INF46W), sydd ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/inf46-registration-numbers-and-you.cy**

Noder bydd y rhif cofrestru personol yn cael ei gadw yn enw'r ceidwad cofrestredig oni bai bod adran 4 (opsiwn B) yn cael ei llenwi.

Os nad yw'r adran hon wedi'i llenwi, bydd y person neu'r cwmni sy'n dod yn geidwad cofrestredig yn derbyn y ddogfen gadw (V778W) a bod â'r hawl i'r rhif cofrestru hwn.

Bydd angen i chi dynnu'r rhif cyn i chi werthu neu ddinistrio'r cerbyd, neu byddwch yn colli'r hawl iddo.

Os yw'r cerbyd wedi cael ei drosglwyddo neu ei werthu cyn i chi wneud cais i gadw eich rhif, byddwch yn colli'r hawl i'r rhif cofrestru cerbyd.

Bydd y rhif cofrestru gwreiddiol yn cael ei ail aseinio i'r cerbyd yn y rhan fwyaf o achosion pan fyddwch yn tynnu'r rhif cofrestru cerbyd personol.

Os yw'r cerbyd sydd â'r rhif cofrestru personol wedi'i aseinio iddo wedi cael ei ddwyn, gallwch wneud cais i gadw'r rhif cofrestru cerbyd ar unwaith i'w ddiogelu. Ni fyddwch yn gallu ei aseinio i gerbyd arall ac ni fydd tystysgrif gadw yn cael ei chyhoeddi hyd nes bod 6 mis ers dyddiad y lladrad wedi mynd heibio neu fod y cerbyd yn cael ei adfer. Cyfrifoldeb y cwsmer yw cysylltu â DVLA i'r dystysgrif cael ei chyhoeddi ar ôl yr amser hwn.

**Yn ôl y gyfraith, gallwn ddiddymu eich hawl i'r rhif cofrestru cerbyd ar unrhyw adeg.**

**Hefyd, gallwn ganslo cais os:**

- nad ydych yn bodloni amodau'r cynllun
- mae unrhyw wybodaeth rydych yn ei rhoi yn y ffurflen hon, neu mewn unrhyw ddogfen a ddefnyddir i gefnogi'r ffurflen hon, yn ffug neu'n anghywir
- mae unrhyw gamgymeriad yn gysylltiedig â'r rhif cofrestru cerbyd
- nad yw eich banc yn anfon eich taliad i ni

## Diogelu data

Mae DVLA yn trafod eich data personol yn unol â chyfraith cerbydau ffyrdd a chyfreithiau gwarchod data. Mae'r gyfraith yn ein galluogi ni i ryddhau eich data i'r heddlu a chyrff gorfodaeth eraill. Rydym hefyd yn darparu data i gwmnïau eraill ble y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu.
Am wybodaeth bellach ynghylch sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a phwy i gysylltu gyda, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn
**www.gov.uk/government/publications/dvla-privacy-policy.cy**

*Prynu cerbyd?*

*Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.*

**www.gov.uk/vehicletaxrules**